

Dod i oed: llenyddiaeth Oedolion Newydd yn Gymraeg

Hannah Sams

Adran y Gymraeg, Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe

Cyflwynwyd: 12 Medi 2024; 18 Chwefror 2025

Crynodeb: Yn 2009, esgorwyd ar gategori llenyddol newydd, ffuglen Oedolion Newydd (New Adult fiction), gan Wasg St Martin, Efrog Newydd. Nod y wasg oedd llenwi bwlch yn y farchnad lyfrau trwy ddatblygu categori llenyddol i ddiwallu anghenion darllen Oedolion Newydd rhwng tua 18 a 25 mlwydd oed a oedd yn troedio'r ffin rhwng llencyndod a bod yn oedolion. Ers 2009, mae awduron, darllenwyr a'r diwydiant cyhoeddi wedi ymateb a datblygu gweledigaeth Gwasg St Martin i ddarparu llenyddiaeth i Oedolion Newydd. Yr erthygl hon yw'r erthygl gyntaf i drafod dechreuadau'r categori llenyddol hwn mewn rhyddiaith Gymraeg ddiweddar gan ddefnyddio *Twll Bach yn y Niwl* (2020) gan Llio Elain Maddocks, *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens* (2022) gan Gwenllian Ellis a *Cwlwm* (2022) gan Ffion Enlli fel astudiaethau achos. Bydd yr erthygl yn dangos ac yn dadansoddi'r modd y mae rhyddiaith y tri awdur dan sylw yn mynegi, herio ac yn ymateb yn greadigol i'r profiad hwnnw o ddod i oed fel menywod yn ystod y cyfnod rhwng llencyndod a bod yn oedolion o safbwynt eu hunaniaethau cenedlaethol ac ieithyddol a rhywioldeb.

Geiriau allweddol: Oedolion Newydd, dod i oed, rhyddiaith.

Emerging as adults: New Adult literature in the Welsh language

Abstract: In 2009, a new literary category, New Adult fiction, was envisioned by the New York based publisher St Martin's Press. The press' aim was to fill a gap in the book market by developing a literary category to cater for the reading requirements of New Adults between the ages of around 18 to 25 years old who were negotiating the period between being Young Adults and New Adults. Since 2009, authors, readers and the publishing industry have adopted and adapted elements of St Martin's Press' vision to provide literature for New Adults. This article is the first to chart the beginnings of New Adult writing in Welsh prose by using *Twll Bach yn y Niwl* (2020) by Llio Elain Maddocks, *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens* (2022) by Gwenllian Ellis and *Cwlwm* (2022) by Ffion Enlli as case studies. The article will demonstrate and analyse how the prose of the three authors considered express, challenge and offer creative responses to coming of age as women in the period being between teenagers and adults in terms of national and linguistic identities and sexuality.

Key words: New Adults, emerging adults, prose.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ISSN: 1741-4261

<http://gwerddon.cymru>

Cyflwyniad

We, the ‘new adults’, have some perspective on our lives, but scope? We’re not old enough, we’re not experienced enough, we’re simply not grown-up enough. Our lives have immediacy, just as a teenager’s does, but we also possess the wisdom to understand that this immediacy cannot last for long. It’s a curious place in life and Dan [Weiss] and I feel that not enough fiction (or nonfiction) explore this nebulous time of life. The ‘quarter-life crisis’, if you will.¹

Bathwyd y term ‘New Adult’ neu Oedolyn Newydd yn Gymraeg (ON o hyn allan) yn 2009 gan Wasg St Martin yn Efrog Newydd wrth iddi lansio cystadleuaeth lenyddol er mwyn dod o hyd i ‘great, new, cutting edge fiction with protagonists who are slightly older than YA [Young Adult] and can appeal to an adult audience’.² Proses artiffisial, felly, oedd creu’r categori er mwyn ymateb i alw penodol gan fod ymchwil marchnad yn dangos mai darllenwyr yn eu hugeiniau yn anad neb oedd prynwyr mwyaf ffuglen i bobl ifanc (Young Adult fiction).³ Nod Gwasg St Martin’s, felly, oedd darparu ar gyfer ‘older YA’ neu’r ‘new adult’ fel roedden nhw’n eu disgrifio.⁴ Ymddangosodd y disgrifiad uchod ar flog S. Jae-Jones, a oedd yn gweithio fel golygydd cynorthwyol i brif olygydd y wasg, Dan Weiss. A hithau’n ON ei hun ar y pryd, byddai modd ystyried Jae-Jones fel llais y gystadleuaeth a’r categori llenyddol newydd.⁵

Yn ôl Deborah Halverson; ‘NAs are a fictional representation of emerging adulthood, demonstrating the dynamics of growth, motivation, anxiety, and stresses that come with transitioning from adolescence to adulthood.’⁶ Felly, anelwyd llenyddiaeth ON at ddarllenwyr sy’n mynd drwy’r cyfnod ‘niwlog’ hwnnw fel y’i disgrifiwyd gan Jae-Jones yn yr alwad am gyfraniadau. Bydd yr ysgrif hon yn craffu’n benodol ar dair enghraifft arloesol o ryddiaith Gymraeg sy’n cyflwyno lleisiau newydd, safbwyntiau newydd a chategori llenyddol newydd i’r Gymraeg, sef llenyddiaeth ON. Mae nofelau cyntaf tri awdur o Gymraes sef *Twll Bach yn y Niwl* (2020) gan Llio Elain Maddocks, *Cwlwm* (2022) gan Ffion Enlli a *Sgen i’r Syniad: Snogs, Secs, Sens* (2022) gan Gwenllian Ellis yn archwilio ymatebion creadigol tair Cymraes i ddod i oed yn ystod degawdau cyntaf y mileniwm a’r modd y siapiwyd perthynas eu

¹ Jae-Jones, S. (2009), yn McAlister, Jodi (2021), *New Adult Fiction* (Caergrawnt: Cambridge University Press), t. 15. Nikolajeva, Maria, a Hilton, Mary (2012), ‘Introduction: Time of Turmoil’, yn *Contemporary Adolescent Literature and: The Emergent Adult*, Nikolajeva, Maria, Hilton, Mary (goln) (Abingdon: Routledge), t. 8.

² Jae-Jones yn Mc Alister, *New Adult Fiction*, t. 11.

³ McAlister, Jodi. (2018), ‘Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of ‘New Adult’ Fiction’, *Australian Literary Studies*, 33, 4 (4), <<https://doi.org/10.20314/als.0fd566d109>>. Er enghraifft, gweler Kaufman, L. (2012), *Beyond Wizards and Vampires, to Sex*, <<https://www.nytimes.com/2012/12/22/books/young-adult-authors-add-steamianness-to-their-tales.html>> [Cyrchwyd: 28 Awst 2024]. Hefyd, gweler Cadden, Mike, Coates, Karen a Trites, Rebecca Seelinger (2020), ‘Introduction’, *Teaching Young Adult Literature* (Modern Language Association of America), t. 1.

⁴ Mc Alister, *New Adult Fiction*, t. 14.

⁵ Ibid.

⁶ Halverson, Deborah (2014), *Writing New Adult Fiction* (Cincinnati, USA: Writer’s Digest Books), t. 39.

cymeriadau (neu nhw eu hunain yn achos Gwenllian Ellis) ag iaith, hunaniaeth a pherthyn yn ystod y cyfnod ffurfiannol hwnnw. Yn hynny o beth, mae'r tri thestun dan sylw wedi dechrau gosod y sylfeini a siapio llenyddiaeth ON yn Gymraeg. A thrwy'r broses honno, mae'r tri awdur yn cyflwyno dehongliadau mentrus a ffres o themâu megis rhyw, rhywedd, iaith a hunaniaethau gan roi llais Cymraeg i rai o'r pynciau a ystyriwyd yn bynciau tabw yn Gymraeg. Mae defnydd mentrus y tri awdur o iaith, neu yn hytrach ieithoedd ac arddulliau, yn fodd o adlewyrchu ar bapur y cyfnod byrlymus, ansicr a niwlog o fod yn ON.

Nid Gwasg St Martin's oedd y cyntaf i sylwi ar y cyfnod hwnnw sy'n ymestyn rhwng bod yn berson ifanc ac yn oedolyn.⁷ Yn wir, bathwyd y term 'Emerging Adult' gan y seicolegydd Jeffrey Jensen Arnett yn y flwyddyn 2000 i ddisgrifio; '[a] new conception of development for the period from the late teens through the twenties, with a focus on ages 18–25 ... characterized by change and exploration of possible life directions'.⁸ Disgrifiwyd y cyfnod o ddod i oed fel oedolyn fel 'a liminal space between two states' gan Amy Pattee.⁹ Mae'r cyfnod hwnnw yn gyfnod ffurfiannol o ran siapio hunaniaeth, cyfnod o osod sylfeini gyrfa, bywyd carwriaethol a chyfnod o siapio'r modd y maen nhw'n gweld y byd. Mae llenyddiaeth ON, felly, yn categori llenyddol sy'n cynnig cipolwg ar siwrnai, neu ran o'r siwrnai o leiaf, o ddod i oed fel oedolyn.

Beth sy'n newydd am lenyddiaeth i ON?

Er y dechreuwyd cydnabod llenyddiaeth ON gan y diwydiant cyhoeddi yn 2009, gellid dadlau nad yw llenyddiaeth ON yn gysyniad newydd gyda thestunau megis *Anne of Green Gables* (1908) gan L. M. Montgomery yn y Saesneg neu *Lle Bo'r Gwenyn* (1960) gan John Rowlands yn y cyd-destun Cymraeg yn arddangos nifer o nodweddion y categori llenyddol hwn. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn newydd, yw bod y cyfnod o ddod i oed fel oedolyn wedi cael ei adnabod gan seicolegwyr fel cyfnod datblygiadol newydd a bod y byd llenyddol hefyd wedi ymateb i angen darllenwyr y cyfnod hwnnw. Yn 2013, cydnabuwyd llenyddiaeth ON fel categori ar wahân gan y diwydiant llyfrau gan roi iddo god Book Industry Standards and Communications (BISAC).¹⁰ Er cael ei gydnabod yn ffurfiol gan y diwydiant llyfrau, mae beirniaid llenyddol a sylwebwyr diwylliannol wedi bod yn arafach i gydnabod llenyddiaeth ON fel categori llenyddol o gwbl.¹¹

⁷ Pattee, Amy (2017), 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42 (2), 222.

<<https://doi.org/10.1353/chq.2017.0018>>

⁸ Arnett, J. J. (2000), 'Emerging adulthood. A theory of development from the late teens through the twenties.' *The American Psychologist*, 55 (5), 469.

⁹ Pattee, 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42, 220.

¹⁰ Mc Alister, *New Adult Fiction*, t. 73.

¹¹ Gweler er enghraifft: Baker, K. J. M. (2010), "'New Adult' Fiction Is Now an Official Literary Genre Because Marketers Want Us to Buy Things', *Jezebel*, 15 November 2012, <<https://www.jezebel.com/new-adult-fiction-is-now-an-official-literary-genre-because-marketers-want-us-to-buy-things>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024] a Nelson, Kristin (2013), 'New Adult – Perhaps the Latest Word for Chick Lit', *Nelson Agency*, <<https://nelsonagency.com/2013/04/new-adult-perhaps-the-latest-word-for-chick-lit/#:~:text=New%20adult%20is%20the%20and%20started%20writing%20for%20them>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024].

Er newydd-deb y categori, nid yw hynny'n gwneud y dasg o'i ddiffinio yn haws. Yn wir, dadleuodd Jodi McAlister nad yw'n bosibl cynnig un diffiniad twt a thaclus o lenyddiaeth ON. Mae hyblygrwydd y term yn rhan o'i apel i Sharon Kane; 'I believe we are at an exciting time when we can help shape what NA literature becomes; we can help construct the construct.'¹² I Kane, mae llenyddiaeth ON yn derm rhydd ac ystwyth ac yn derm sydd yn cwmpasu 'virtually all genres, including realistic fiction, historical fiction, science fiction, biography, memoir and poetry.'¹³ Er hynny, ni welwyd natur hylifol y term o ran *genre* yng ngweithiau ON y cyd-destun Seisnig gan fod y rhan fwyaf o'r gweithiau ffuglennol a gyhoeddwyd yn syrthio i'r *genre* rhamant, yn enwedig yn ystod blynyddoedd anterth llenyddiaeth ON yn Saesneg rhwng 2011 a 2013.¹⁴ Fodd bynnag, mae llenyddiaeth ON wedi esblygu ac addasu ychydig wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt.¹⁵ Yn ôl Kane, byddai modd ystyried llenyddiaeth ON fel 'the second step in the coming-of-age process'.¹⁶ Mae deall perthynas llenyddiaeth ON a llenyddiaeth i bobl ifanc (Young Adult (YA)) yn fan cychwyn da wrth fynd ati i gynnig trosolwg o lenyddiaeth ON. I Jodi McAlister, ceir perthynas annatod rhwng y ddau gan fod llenyddiaeth ON yn 'direct offshoot of YA.'¹⁷ Heb os, mae sawl tebygrwydd rhwng y ddau gategori ac ymhlith yr amlycaf yw'r ffaith mai storïau am ddod i oed a storïau yn cael eu hadrodd o safbwynt y person cyntaf yw'r ddau. Mae'r hyn sy'n uno'r ddau gategori hefyd yn amlygu rhai o'r prif wahaniaethau rhwng llenyddiaeth ON a llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau. Mae'n wir fod llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau a llenyddiaeth ON yn cynnig safbwyntiau ar ddod i oed; fodd bynnag, fel mae Roberta Seelinger Trites yn ei esbonio, mewn llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau 'the protagonist ... is rarely an adult by the end of the narrative', whereas in NA literature the protagonist 'is situated within or entering the realm [of adulthood] by the end of the narrative.'¹⁸ Mae man cychwyn a man darvoud llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau a llenyddiaeth ON yn wahanol, felly.

Gwahaniaeth nodedig arall rhwng llenyddiaeth ON a llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau yw'r berthynas rhwng yr awdur a'r darlennydd.¹⁹ Mae llenyddiaeth i bobl ifanc a llenyddiaeth ON ill dau yn gwneud defnydd o naratif person cyntaf; fodd bynnag, mewn llenyddiaeth i bobl ifanc, mae'r awduron yn aml yn dibynnu ar eu cof wrth gofio nôl i'w profiadau o fod yn bobl ifanc yn eu harddegau wrth adrodd eu storïau tra bod llenyddiaeth

¹² Kane, Sharon (2013), *Teaching and Reading New Adult Literature in High School and College* (Abingdon: Routledge), t. 1.

¹³ Ibid., t. 2.

¹⁴ McAlister, *New Adult Fiction*, tt. 60–1, a McAlister, 'Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of "New Adult" Fiction', *Australian Literary Studies*, 15.

¹⁵ Kane, *Teaching and Reading New Adult Literature in High School and College*, t. 2.

¹⁶ Ibid.

¹⁷ McAlister, 'Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of "New Adult" Fiction', *Australian Literary Studies*, 5.

¹⁸ Trites, Roberta Seelinger, 'Disturbing the Universe: Power and Repression in Adolescent Literature', traethawd PhD, University of Iowa, Iowa, 2000, 10.

¹⁹ Pattee, 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42, 219.

ON wedi'i hysgrifennu gan ON yn aml iawn. Trwy hynny, crëir ymdeimlad o 'for us, by us' fel y dywed Julie Naughton wrth drafod llenyddiaeth ON.²⁰ Mae Deborah Halverson hefyd yn ystyried uniongyrchedd perthynas yr awdur a'r darlennydd mewn llenyddiaeth ON ymhlith prif nodweddion y categori, ynghyd â nodweddion eraill megis; oed y prif gymeriadau (sef rhwng tua 18 a 25 mlwydd oed),²¹ themâu'n ymwneud â sefydlu hunaniaeth, stori â chanfod annibyniaeth yn ganolbwynt iddi, gwrthdaro rhwng disgwyliadau uchel a realiti, ac amgylchiadau sy'n berthnasol i fydoedd ON (e.e. trefniadau byw dros dro, swyddi byr-dymor).²²

Yn wahanol i lenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau, mae llenyddiaeth ON yn aml yn archwilio themâu mwy aeddfed, megis rhyw a rhywioldeb, mewn mwy o fanylder yn sgil y ffaith bod darllenwyr llenyddiaeth ON yn hŷn. Mae trafodaethau mwy mentrus llenyddiaeth ON o ryw wedi cymell rhai i'w disgrifio fel 'YA with sex', label a wrthodwyd gan Dan Weiss. I Dan Weiss, mae llenyddiaeth ON am fwy na rhyw, mae am gymeriadau sy'n ON yn cwestiynu, archwilio ac yn ymraffael i ddeall eu hunain.²³

Mae'r awduron y byddai modd eu hystyried ymhlith carfan gyntaf ON hefyd yn perthyn i gorlan y 'millennial', term a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r sawl a aned rhwng 1981 a 1996.²⁴ Mae Rebecca Lui wedi disgrifio'r profiad o fod yn 'millennial' fel 'being stuck in a permanent state of on-the-cusp adolescence.'²⁵ Profiad digon tebyg i brofiad yr ON. At hynny, ymddengys bod 'millennials' yn gwneud pethau'n wahanol fel mae Amy Pattee yn ei esbonio isod:

They're not marrying, settling down, starting families, and choosing careers for life in their 20s and 30s...Millennials are returning home because they can't afford to strike out on their own, or they're living in cramped conditions with roommates. They can't afford to start families, and no careers are waiting for them.²⁶

Mae awduron sy'n ysgrifennu o bersbectif ON yn lleisio profiadau newydd eu cenhedlaeth nhw o ddod i oed.

²⁰ Naughton, Julie (2014), 'New Adult Matures', *Publishers Weekly*, 261 (28), 25.

²¹ Mae'r oed yn amrywio ychydig i Pattee: 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42; pobl rhwng 18-25 mlwydd oed yw ON i Amy Pattee tra bod Sharon Kane yn nodi eu bod rhwng 17 a 26 mlwydd oed yn Kane, *Teaching and Reading New Adult Literature in High School and College*, t. 1. I Briony Chappell, mae'r label ON yn cynnwys pobl sydd rhwng 14 a 35 mlwydd oed. Chappell, Briony, *Would you read novels aimed at 'new adults'?* <<https://www.theguardian.com/books/2012/sep/10/new-adult-fiction>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024].

²² Halverson, *Writing New Adult Fiction*, tt. 14–19.

²³ Weiss, Dan, yn Halverson, *Writing New Adult Fiction*, t. 23.

²⁴ Pattee, 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42, 222–3.

²⁵ Lui, Rebecca (2019), *The Making Of A Millennial Woman*, <<https://www.anothergaze.com/making-millennial-woman-feminist-capitalist-fleabag-girls-sally-rooney-lena-dunham-unlikeable-female-character-relatable/>> [Cyrchwyd: 3 Awst 2024].

²⁶ Defnyddir 'categori' a 'genre' i ddisgrifio ffuglen ON yn McAlister, *New Adult Fiction*, tt. 2–8 a Pattee, 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42, 222–3.

Fel unrhyw gategori llenyddol, mae angen diffinio ac ailddiffinio llenyddiaeth ON yn rheolaidd wrth i leisiau a phersbectifau amrywiol barhau i siapio ac ehangu ei gorwelion.²⁷ Datblygwyd y term ON gan y diwydiant llyfrau ond ers hynny, fe'i meddiannwyd a'u haddaswyd gan awduron a darllenwyr fel ei gilydd. Ond un edefyn sydd wedi parhau wrth i'r categori ddatblygu yw bod llenyddiaeth ON yn ymateb yn greadigol i'r cyfnod hwnnw rhwng bod yn oedolyn ifanc yn ei ardegau ac yn oedolyn llawn, neu'r 'nebulous time in life', fel y'i disgrifiwyd gan Jae-Jones.²⁸

Mae'r categori oed 18–25 hefyd yn cael ei ystyried fel cyfnod niwlog o safbwynt ymwneud pobl ifanc ag ieithoedd lleiafrifol.²⁹ Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniadau cyfrifiad 2021 sy'n dangos dirywiad cyson yn y nifer o siaradwyr y Gymraeg ar ôl iddynt groesi trothwy 15 oed, dirywiad sy'n parhau tan y categori 75+ mlwydd oed.³⁰ Felly, gellid dadlau bod sicrhau bod profiadau ON yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg yn fodd arall o geisio sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud â'r Gymraeg a bod eu leisiau yn cael eu hadlewyrchu a'u clywed mewn llenyddiaeth Gymraeg, sy'n holl bwysig wrth sicrhau hyfywedd a dyfodol yr iaith.

Mae ON, dod i oed, llencyndod a 'millennial' oll yn dermau y cyfeiriwyd atynt yn rhan gyntaf yr erthygl hon fel termau sy'n cael eu defnyddio i gyfleu'r profiad o ddod i oed. ON fydd y prif derm a ddefnyddir yng nghorff yr erthygl hon gan ei fod yn gweithredu fel term sy'n cwmpasu bob un o'r pedwar a grybwyllwyd. Hon fydd yr erthygl gyntaf i gynnig trosolwg o sut mae'r awduron ON cyntaf yn y Gymraeg wedi dechrau ymateb yn greadigol i'r profiad o ddod i oed fel ON benywaidd yn y Gymru gyfoes.

Llenyddiaeth ON yn Gymraeg

Sylwodd Olivia Sudjic ar duedd ymhlith ffuglen 'millennial', sef bod y rhan fwyaf o lenyddiaeth sy'n cael eu hystyried yn ddarnau 'millennial' wedi'u hysgrifennu gan fenywod. Awgrymodd Sudjic fod y duedd hon yn datgelu, 'an inequality (male literary writers tend to be credited with writing universal books rather than category specific ones) [...]'.³¹ Mae Josefine Smith hefyd wedi sylwi mai awduron benywaidd yw'r rhan fwyaf o awduron sy'n ysgrifennu ON yn Unol Daleithiau America a gwêl fod hyn yn awgrymu 'a new feminine experience based on new cultural norms and expectations for women in America'³² Mae

²⁷ McAlister, 'Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of "New Adult" Fiction', *Australian Literary Studies*, 3.

²⁸ Naughton, Julie (2014), 'New Adult Matures', *Publishers Weekly*, 261 (28), 20.

²⁹ O'Rourke, Bernadette, *Attitudes towards minority languages: an investigation of young people's attitudes towards Irish and Galician*, traethawd PhD, Prifysgol Dinas Dilyn, Dilyn, 2005 a Dołowy-Rybińska, Nicole (2020), "No One Will Do This For Us": *The Linguistic and Cultural Practices of Young Activists Representing European Linguistic Minorities* (Oxford: Peter Lang), tt. 13–14.

³⁰ Llywodraeth Cymru (2020), *Y Gymraeg yng Nghymru* (Cyfrifiad 2021). <<https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>> [Cyrchwyd: 6 Awst 2024].

³¹ Sudjic, Olivia (2019), *Darkly funny, desperate and full of rage: what makes a millennial novel?*, <<https://www.theguardian.com/books/2019/aug/17/what-makes-a-millennial-novel-olivia-sudjic>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2024].

³² Smith, Josefine, 'New Adult Fiction and a New Feminine Experience', traethawd MA, Pennsylvania State University at Harrisburg, Harrisburg, 2017, 1–2.

gweithiau Llio Maddocks, Gwenllian Ellis a Ffion Enlli, sy'n adrodd straeon cymeriadau heb blant wrth iddynt ddod i oed, yn enghreifftiau o sut mae menywod 'millennial' yn dilyn llwybrau gwahanol i'r rhai a bortreadwyd yn llenyddiaeth Gymraeg yn y gorffennol. Fodd bynnag, tuedd yn hytrach na ffaith yw mai menywod yn unig sy'n ysgrifennu o bersbectif yr ON. Er mai testunau gan fenywod sydd dan sylw yn yr erthygl hon, nid yw llenyddiaeth sy'n mynegi profiadau'r ON wedi'i chyfyngu i waith awduron benywaidd yn unig yn y cyddestun Cymraeg. Yn wir, gellid ystyried gweithiau megis *Llwyth* gan Daf James, *Woof!* gan Elgan Rhys, a rhai o gerddi Llŷr Gwyn Lewis a Gruffudd Eifion Owen yn esiamplau o weithiau ON gan ddynion.³³

Mae gan lenyddiaeth ON yn Gymraeg hunaniaeth unigryw ar wahân i'r hyn a geir yn Saesneg. Mae sawl ffactor wrth wraidd arwahanrwydd llenyddiaeth ON yn Gymraeg o'i gymharu â llenyddiaeth ON yn Saesneg. Mae llenyddiaeth ON yn Gymraeg yn cynnig dehongliadau o densiynau'n ymwneud â lleiafrifoli ieithyddol a hunaniaethau cenedlaethol, sydd yn ei osod ar wahân i lenyddiaeth ON yn y Saesneg. Wrth drafod gweithiau llenyddol gan awduron benywaidd yn gyffredinol, sylwodd Katie Gramich bod gweithiau llenyddol gan awduron benywaidd o genhedloedd bychain fel Cymru yn dioddef o'r hyn y mae hi yn ei alw'n 'double marginalization'.³⁴ Â Gramich ymlaen i ddadlau bod yr awduron hyn yn cael eu gwthio ymhellach i'r cyrion os ydynt yn Gymraesau gan dreblu grym y gwthio. Gellid dadlau bod y gwthio hynny bedair gwaith yn fwy os yw'r awduron benywaidd hynny o Gymru ac yn ysgrifennu yn Gymraeg.³⁵ Efallai mai'r broses honno o gael eu gwthio i'r cyrion sydd wrth wraidd y ffaith nad oes gwaith academiaidd wedi'i gyhoeddi ar lenyddiaeth ON yn Gymraeg nac mewn ieithoedd lleiafrifol eraill hyd yma.

Rhyddiaith ON fydd ffocws yr erthygl hon, a hyd yma, rhyddiaith ON a gwaith beirniadol ar ryddiaith a ffuglen yn benodol sydd wedi mynnu sylw awduron a beirniaid llenyddol yn y Saesneg. Fodd bynnag, yn y Gymraeg fe ymddengys fod mwy o amrywiaeth o ran ffurfiau llenyddol. Ystyrier casgliad Caryl Bryn *Hwn ydy'r llais, tybad?* (2019) a gipiodd wobwr categori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2020, *Stuff ma Hogia 'Di Ddeud Wrtha Fi* (2020), sef casgliad Llio Maddocks o gerddi, a drama Mared Llywelyn *Croendena* (2023) yn ogystal â chyfrol Tegwen Bruce Deans *Gwawrio* (2023) yn enghreifftiau o lenyddiaeth ON yn Gymraeg. Pwynt nodedig arall i'w gydnabod yw bod pob un, namyn un o'r cyfrolau o gerddi a dramâu a restrwyd uchod, wedi'u cyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Stamp, sef gwasg annibynnol sy'n cyhoeddi gwaith yn Gymraeg gyda'r bwriad o 'roi llwyfan i leisiau newydd ac ymylol yn y Gymraeg, creu llwyfan agored i greadigrwydd o bob math, a bodoli'n annibynnol heb nawdd cyhoeddus'.³⁶ At hynny, Marged Tudur o wasg Y Lolfa sydd, fel

³³ James, Dafydd (2010), *Llwyth* (Caerdydd: Sherman Cymru); Rhys, Elgan (2024), *Woof* (Wauanfawr, Caernarfon: Cyhoeddiadau'r Stamp); Lewis, Llŷr Gwyn (2014), *Storm ar Wyneb yr Haul* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr); Lewis, Llŷr Gwyn (2020), *Rhwng Dwy Lein Drên* (Cymru: Hunangyhoeddedig); Owen, Gruffudd Eifion (2015), *Hel llus yn y glaw* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr).

³⁴ Gramich, Katie (2007), 'Introduction', *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 1.

³⁵ Gramich, 'Introduction', *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t. 1.

³⁶ Cyhoeddiadau'r Stamp, <<https://www.ystamp.cymru/>> [Cyrchwyd: 19 Gorffennaf 2024].

golygyddion Cyhoeddiadau'r Stamp, yn ON ei hun a olygodd *Cwlwm* a *Sgen i'm Syniad*. Tra bod golygyddion gweisg yn aml yn anweledig, fel Jae-Jones yng Ngwasg St Martin's, gellid ystyried rôl golygyddion yn ffactor sydd wedi cyfrannu at ddiffinio, siapio a rhoi llais i brofiad yr ON yn y Gymraeg.³⁷

Llenyddiaeth ON: y testunau

Cyrhaeddodd *Twll Bach yn y Niwl*, Llio Maddocks, restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021, ac fe'i disgrifiwyd gan un adolygydd fel y nofel 'millennial' gyntaf yn y Gymraeg.³⁸ Yn wir, mae'r nofel yn ymgorffori nifer o nodweddion y nofel 'millennial' a ddisgrifiwyd fel a ganlyn gan Olivia Sudjic:

[...] a rootless, anxious life: a rat race whose illusory prize for sacrificing your soul is a bare minimum of social acceptance and financial security. Their protagonists tend to be navigating or avoiding adulthood, usually desperate, disenfranchised, displaced, ironic, full of rage or grim humour that covers unbearable shame and sadness [...] they tend toward self-sabotage or perform cheeriness under constant surveillance while slowly dying inside.³⁹

Mae Lowri, prif gymeriad *Twll Bach yn y Niwl* newydd raddio, heb waith ac mae hi mewn twll bach yn ystod cyfnod niwlog yn ei bywyd. Yn sgil cancr angheuol ei mam, aeth Lowri nôl i fro ei mebyd at ôl graddio tra bod nifer o'i chyfoedion, gan gynnwys ei chariad, wedi dianc ac yn gwneud pethau sy'n ymddangos llawer yn fwy cyffrous, megis teithio'r byd. Yn *Twll Bach yn y Niwl*, tystiwn i sylweddoliad Lowri nad yw'r bywyd y mae hi'n ei fyw yn cyfateb i'r hyn yr oedd hi wedi ei ddychmygu a gobeithio amdano. Ar ddechrau'r nofel, ymddengys fod Lowri yn chwarae rhan oddefol yn ei bywyd hi ei hun. Fodd bynnag, yn ystod y nofel, mae hi'n trawsnewid o fod yn berson sy'n ddibynnol ar sylw oddi wrth ei rhieni a chan ddynion i fod yn berson sy'n canfod ei llais ei hun a'i lle yn y byd. Tra bod rhamant wedi bod yn thema allweddol mewn llenyddiaeth ON yn Saesneg, mae *Twll Bach yn y Niwl* yn cynnig stori garu o fath arall, stori garu sydd yn mawrygu'r cariad rhwng ffrindiau, teulu a chymuned.

Mae *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens* gan Gwenllian Ellis, enillydd Gwobr Barn y Bobl yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2023, yn enghraifft arall o lenyddiaeth ON sy'n dathlu perthnasau platonig yn hytrach na pherthnasau rhamantus.

Mae *Cwlwm* gan Ffion Enlli hefyd yn cael ei hadrodd o bersbectif 'millennial' o Gymraes,

³⁷ Gweler Groenland, Tim (2020), *The Art of Editing: Raymond Carver and David Foster Wallace* (London: Bloomsbury).

³⁸ Non, Lleucu (2020), 'Twll Bach yn y Niwl', <<https://www.sonamlyfra.cymru/post/twll-bach-yn-y-niwl-llio-elain-maddocks>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2024].

³⁹ Sudjic, *Darkly funny, desperate and full of rage: what makes a millennial novel?* [Cyrchwyd: 15 Awst 2024].

sef cymeriad Lydia Ifan. Mae Lydia wedi gadael ei chartref yng nghefn gwlad Pen Llŷn i geisio bywyd dinesig Llundain wedi graddio. Yn wahanol i *Twll Bach yn y Niwl* a *Cwlwm*, sy'n defnyddio ffuglen fel cyfrwng i gyfleu daliadau'r awduron, dewisodd Gwenllian Ellis ysgrifennu *Sgen i'm Syniad* ar ffurf darn o ryddiaith ffeithiol-greadigol ar sail ei phrofiadau personol o ddod i oed mewn cymuned wledig yng ngogledd-orllewin Cymru, gadael Cymru am y tro cyntaf a chanfod ei ffordd fel Cymraes ifanc yn y byd.

Daeth y tri awdur dan sylw i oed mewn cyfnod pan oedd neges y Spice Girls am 'Girl Power' yn atseinio yn eu clustiau a'r gred eu bod yn gallu gwneud unrhyw beth, tra bod y realiti yn wahanol iawn. Mae gwrthdaro rhwng disgywliadau prif gymeriadau'r testunau dan sylw o'r hyn y dylent fod wedi'i gyflawni yn eu bywydau a realiti hynny ymhlith prif nodweddion llenyddiaeth ON yn ôl Deborah Halverson, ac mae modd gweld hyn yn y testunau Cymraeg. Un enghraifft o hyn yw'r bwlch mawr rhwng sut y byddai'r prif gymeriadau'n hoffi cael eu gweld a'u trin a'r modd y maen nhw'n cael eu trin mewn gwirionedd, sy'n amlygu'r ffaith bod 'the Millennial Woman par excellence is a deeply disempowered human being', fel y mae Rebecca Lui yn ei esbonio.⁴⁰ Mae *Twll Bach yn y Niwl*, *Sgen i'm Syniad* a *Cwlwm* yn dechrau trwy fynegi'r diymadferthedd hyn gan fynd â darllenwyr ar siwrnai wrth i'r prif gymeriadau ganfod eu lleisiau. Tra bod rhai wedi dadlau bod menywod yng Nghymru mewn cyfnod ôl-ffeminyddol lle y mae brwydrau am gydraddoldeb wedi eu hennill ac nad oes gan fenywod heddiw yr un arddeliad ac ymroddiad i'r mudiad ffeministaidd â'u mamau a'u mamau cu, mae'r tri thestun dan sylw yn yr erthygl hon yn herio'r cysyniad hwnnw.⁴¹ Bydd rhan nesaf yr erthygl hon yn canolbwyntio'n benodol ar sut y mae'r awduron yn lleisio rhwystredigaethau'r prif gymeriadau yn achos *Twll Bach yn y Niwl* a *Cwlwm*, a rhwystredigaethau'r awdures ei hun yn achos *Sgen i'm Syniad*, trwy ganolbwyntio ar eu perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb, cymdeithas a rôl y cyfryngau wrth iddynt siapio eu hunaniaethau, gyda ffocws penodol ar gymunedau yng ngogledd-orllewin Cymru.

Taclo pynciau tabŵ: rhyw, rhywedd a rhywioldeb

Rhyw

Mae trafodaethau agored am ryw a rhywedd yn ddigon prin yn y Gymraeg.⁴² Mae rhyw yn cael ei weld fel pwnc tabŵ o hyd.⁴³ Dadleuodd Non Tudur yn *Golwg* bod *Sgen i'm Syniad* yn gyfraniad pwysig at gyhoeddiadau diweddar gyda lleisiau menywod yn ganolog iddynt, ac y byddai modd ei hystyried 'yn drobwynt llenyddol o ran trafod rhyw yn Gymraeg'.⁴⁴

⁴⁰ Lui, *The Making of a Millennial Woman* [Cyrchwyd: 3 Awst 2024].

⁴¹ Rees, Mair (2014), *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen* (Talybont: Y Lolfa), tt. xiv–xv.

⁴² Gramich, 'Feminist Place 1978–1996', *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging*, t. 171.

⁴³ Ibid., t. 171.

⁴⁴ Tudur, Non (2022), 'Siarad Sens am Ryw', *Golwg*, 35 (3), Medi 15, 23.

Mae Gwenllian Ellis hefyd yn cyfrannu at ehangu'r traddodiad hir sefydledig o hunangofiannau yn Gymraeg, traddodiad lle mae dynion wedi gormesu.⁴⁵ Mae bob un o'r tri chyhoeddiad a drafodir yn yr erthygl hon yn enghreifftiau o awduron benywaidd Cymraeg yn gwthio ffiniau ac yn awyddus i daclo pynciau tabŵ fel sydd hefyd yn wir am awduron 'millennial' Seisnig megis Phoebe Waller-Bridge a Sally Rooney.⁴⁶ Mae adolygwyr wedi disgrifio gwaith ffeithiol-greadigol Gwenllian Ellis fel gwaith 'dewr' yn sgil ei pharodrwydd i drafod pynciau tabŵ yn agored yn y Gymraeg ac yn y Gymry Gymraeg lle y mae 'pwysau llethol i gydymffurfio ac i sensro'r hunan yn arbennig o drwm: mae'n cymdeithas ni mor fach, wrth gwrs, ac y mae byw â'n cefnau at y wal yn ein gwneud ni o bosibl yn fwy mewnblyg'.⁴⁷ Mae *Sgen i'm Syniad* a *Twll Bach yn y Niwl* yn dathlu cyfeillgarwch rhwng ffrindiau benywaidd a chwaer yr awdur, yn hytrach na chariadon, gan gyflwyno ymdriniaeth newydd â chariad i lenyddiaeth Gymraeg, sef cariad rhwng ffrindiau a ddisgrifiwyd gan gymeriad Lydia Ifan yn *Cwlwm* fel 'ffrindiau mor agos nes ei bod hi'n anodd dychmygu bywyd hebddyn nhw'.⁴⁸ A'r cariad y tu hwnt i berthnasau rhamantus y mae *Sgen i'm Syniad* yn ei ddisgrifio isod:

Am flynyddoedd mi o'n i mor *obsessed* efo cariad rhamantus, efo'i ganfod, efo'i gael, efo'i deimlo, mi o'n i'n anghofio am y cariad o'n i'n deimlo tuag at bobl a phethau oedd reit o dan fy nhrwyn i: fy ffrindiau, fy chwaer, fy rhieni, straeon fy nain, geiriau ar bapur, caneuon Laura Marling, Caerdydd, coginio ar brynhawn Sul, traeth Pwllheli yn y haf. Roedd o wastad wedi bod yna o dan fy nhrwyn, yn fy amgylchynu mewn cocŵn cynnes. Tydi cariad ddim angen cael ei weiddi drwy'r megaffon bob amser, mae e'n medru bod yn rhywbeth sy'n llosgi'n ddistaw ac yn ffyddlon, a bydd yn bygwth diffodd.⁴⁹

Rhoddir bri ar gyfeillgarwch yn *Twll Bach yn y Niwl* hefyd, yn enwedig cyfeillgarwch rhwng dynion a menywod. Mae'r ffrind di-enw newydd y mae Lowri'n cyfeirio ato fel y Ffêri Godmyddyr yn sylweddoli nad oes angen 'achub' Lowri ac mai ffrind sydd ei angen arni: 'Ddudist ti wrtha i y noson gyntaf i ni gyfarfod bo' chdi ddim am gael dy achub, a nes i ddim gwrando. Ond dwi'n gweld rŵan dy fod ti'n gallu edrych ar ôl dy hun.'⁵⁰ Trwy'r dehongliadau hyn o wahanol fathau o gariad rhwng dynion a menywod a chariad rhwng ffrindiau a theulu, mae'r testunau dan sylw yn herio'r naratif a welir mewn ffilmiau a nofelau rhamantaidd sydd wedi siapiro ein disgwyliadau o berthnasau, gan wahodd darllenwyr i weld bod cariad yn bodoli mewn amrywiol ffurfiau y tu hwnt i berthnasau rhamantus.

⁴⁵ Gweler Williams, Gerwyn (1999), 'Rhagymadrodd', *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 1–2.

⁴⁶ Sudjic, *Darkly funny, desperate and full of rage: what makes a millennial novel?* [Cyrchwyd: 5 Awst 2024].

⁴⁷ Lloyd-Morgan, Ceridwen, 'Sensro'r Ferch', *Taliesin*, 84 (1994), 24–9.

⁴⁸ Enlli, Ffion (2022), *Cwlwm* (Talybont: Y Lolfa), t. 269.

⁴⁹ Ellis, Gwenllian (2022), *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens* (Talybont: Y Lolfa), t. 266.

⁵⁰ Maddocks, Llio Elain (2020), *Twll Bach yn y Niwl* (Talybont: Y Lolfa), t. 244.

Mae ymddygiad benywaidd ‘derbyniol’ yn rhywbeth sy’n cael ei siapio gan gymdeithas o oed ifanc iawn yn y testunau dan sylw.⁵¹ Mae *Sgen i’r Syniad* yn dangos dylanwad andwyol y cyfryngau a chylchgronau i fenywod a dynion ifanc fel ei gilydd a’r modd y maen nhw’n mowldio’r syniad o’r fenyw ddelfrydol yn y 1990au hwyr a dechrau’r mileniwm.⁵² Yn wir, roedd hunanwerth Gwenllian Ellis yn ddibynnol ar sylw gwrywaidd yn ystod eu harddegau a’u hugeiniau cynnar. Noda mai; ‘Y peth pwysicaf i ferch 14 oed o Ben Llŷn oedd ffeindio cariad neu o leiaf ffeindio hogyn fasa’n ei snogio.’⁵³ Mae’r angen i gael ei snogio’n troi yn angen i gael rhyw, i gael cariad ac yna gŵr ac mae’r awchu am sylw gwrywaidd yn parhau tan bod Gwenllian Ellis yn ailfframio’r ffordd mae’n meddwl amdani hi ei hun ac yn herio’r cysyniad Hollywoodaidd o gariad.

Rhywiaeth

Ynghyd â dangos sut mae’r cyfryngau a byd y ffilmiau yn siapio hunaniaethau, mae *Sgen i’r Syniad* a *Cwlwm*, sydd wedi’u gwreiddio mewn cymunedau gwledig ym Mhen Llŷn, yn cynnig mewnwelediad i’r modd y mae’r merched yn cael eu gweld a’u trin gan rai o fewn cymunedau gwledig o’r fath. Ystyrier yr esiampl isod o *Cwlwm*, er enghraifft, wrth i Bryn, amaethwr o bentref Lydia ddatgelu ei fod wedi dyweddio â’i gariad. Ar ôl i Lydia ei longyfarch mae’n ymateb fel a ganlyn:

‘Duw, neith hyn gau’i cheg hi am ’chydig gobeithio,’ meddai. Chwarddodd pawb. Edrychodd Lydia ar Bryn yn yfed ei beint yn araf.
 ‘Wel, ti ’di cal modrwy i’r hogan ta be?’ gofynnodd Wil.
 ‘Ffwcin ’el naddo,’ meddai Bryn. ‘Neith llinyn bêls i’r gont gneith?’⁵⁴

Mae Lydia yn herio ei agwedd rywiaethol ac mae Bryn yn ymateb trwy ddweud: “‘Ffwcin el, ’di hon yn gw bod i lle ta be?’” Edrychodd o’i gwmpas ar y dynion eraill oedd yn cuddio tu ôl i’w peintiau.⁵⁵ Dweud dim y mae Deio, ffrind agos Lydia ers dyddiau ysgol, fel gweddill dynion y dafarn. Mae’r agweddau rhywiaethol hyn at fenywod yn gwrthgyferbynnu â’r modd y mae menywod yn cael eu trin yn y swigen gosmopolitaidd y mae Lydia yn byw ynddi yn Llundain, gan ychwanegu at y teimladau cymhleth o beidio â gwybod i ble mae hi’n perthyn. Daw rhai o wreiddiau’r agweddau rhywiaethol hynny i’r amlwg yn un o’r adrannau mwy myfyrgar a italeiddiwyd sy’n ymddangos ar ddiwedd bob pennod wrth ddangos sgwrs rhwng Deio a’i gyfoedion gwrywaidd yn ei arddegau:

‘Ti am ffwcio hi ta be?’ meddai Jason, ei lais yn filain.
 ‘Na, jest ffrindia ’dan ni.’ Roedd llais Deio’n is na’r arfer.

⁵¹ Maddocks, *Twill Bach yn y Niwl*, t. 39.

⁵² Ellis, *Sgen i’r Syniad: Snogs, Secs, Sens*, t. 32.

⁵³ Ibid., t. 37.

⁵⁴ Enlli, *Cwlwm*, t. 125.

⁵⁵ Ibid.

‘Ffrindia? Be wt-ti? Pansan?’ chwarddodd Jason.
 ‘Nage!’ Gallai Lydia weld y panig ar wyneb Deio. Doedden nhw ddim yn
 gwybod ei bod hi’n gallu eu gweld nhw.
 ‘Ma hi’n ffit. Swni’n mynd efo hi. Nawni neud bet, gweld pwy sy’n gallu
 cha’l hi gynta?’ holodd Dyl.
 Edrychodd Deio ar y llawr.
 ‘Ffwc o syniad,’ meddai Siôn.
 ‘Awê,’ eiliodd Meilir.⁵⁶

Mae’r pwt uchod yn enghraifft arall o’r modd y mae nofel Ffion Enlli yn arddangos shiftt tuag at agwedd lai du a gwyn mewn rhyddiaith Gymraeg.⁵⁷ Ynghyd â chynnig cipolwg ar agweddau tuag at fenywod gan rai o fewn cymunedau gwledig, mae’r sgwrs rhwng Deio a’i ffrindiau hefyd yn dangos sut mae agweddau rhywiaethol yn cael eu ffurfio o oed ifanc.

Mae’r diffyg ystyriaeth sy’n cael ei roi i fenywod a’r teimladau a ddangoswyd gan gymeriad Bryn yn *Cwlwm* yn amlwg ym mhrofiadau rhywiol prif gymeriadau benywaidd y tri darn rhyddiaith dan sylw. Nid yw plaser rhywiol y ferch ar frig blaenoriaethau nifer o gymeriadau gwrywaidd y darnau.⁵⁸ Ar ddechrau eu storïau, mae Gwenllian Ellis a Lowri yn *Twll Bach yn y Niwl* yn cymryd rhan oddefol yn eu profiadau rhywiol, tuedd a welir mewn nifer o weithiau *millennial* gan awduron benywaidd.⁵⁹ Fodd bynnag, gwelir datblygiad amlwg ym mhrif gymeriadau’r testunau dan sylw wrth iddynt ddechrau canfod eu lleisiau. Er na cheir diwedd glo twt a thaclus, tystiwn i’r cymeriadau’n cyrraedd lefel newydd o aeddfedrwydd.⁶⁰

Cydsynio rhywiol

Mae mwy na diffyg ystyriaeth i brofiadau rhywiol y ferch yn cael eu harchwilio yn *Twll Bach yn y Niwl* wrth i Llio Maddocks godi cwestiynau dyrys am gydsynio rhywiol. Er enghraifft, gwelwn gyn lleied o ystyriaeth y mae Dafydd, sydd am gadw ei berthynas â Lowri yn gyfrinach rhag ei gariad, yn rhoi i anghenion a theimladau Lowri wrth gael rhyw. Daw’n amlwg bod yr hyn y mae’r ddau am gael allan o gael rhyw gyda’i gilydd yn wahanol iawn. Tra bod Lowri yn crefu am agosatrwydd a thynerwch, daw’n amlwg mai grym a rheolaeth ac ymateb i’w chwant rhywiol ei hun yw’r unig beth ar feddwl Dafydd:

Gafaelodd yndda i a hanner fy stwffio rhwng dwy sêd flaen y car ac i’r
 sêd gefn gan fy nilyn fel heliwr yn aroglu gwaed. Estynnais fy mreichiau

⁵⁶ Ibid., t. 140.

⁵⁷ Marks, Rhiannon (2017), ‘Syrffio’r drydedd don?: heriau cyfoes astudiaethau rhywedd’, *Y Traethodydd*, CLXXII, 720, 58.

⁵⁸ Ellis, *Sgen i’r Syniad: Snogs, Secs, Sens*, tt. 85–6 a t. 156.

⁵⁹ Lui, *The Making of a Millennial Woman* [Cyrchwyd: 7 Awst 2024].

⁶⁰ Kane, *Teaching and Reading New Adult Literature in High School and College*, t. 2, a McAlister, ‘Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of ‘New Adult’ Fiction’, *Australian Literary Studies*, 33 (4), 10.

er mwyn ei dynnu mewn i goflaid, isio ei gusanu, ei fwytho, ei deimlo dan fy mysedd, ond gafaelodd yn fy ngarddyrnau gydag un llaw fawr a dal fy nwylo uwch fy mhen nes o'n i'n methu symud. Ceisiais glymu fy nghoesau gyda'i rai o, gan ysu am gael teimlo ei groen arna i, ond gafaelodd yn fy nghanol a 'nhroi wyneb i waered nes oedd fy nhalcen yn pwysu yn erbyn ffenest drws y car, a ganddo fo oedd y pŵer i gyd rŵan. Rhoddodd ei law gryf am gefn fy ngwddf gan fy nal i lawr wrth iddo wthio ei hun i mewn i mi'n frysio.⁶¹

Nid dyma'r unig enghraifft o ecsbloetio rhywiol sydd yn *Twll Bach yn y Niwl*. Mae Dyfed, canwr adnabyddus sy'n briod ac yn dad i blentyn ifanc, hefyd yn cymryd mantais o Lowri yn rhywiol, a Lowri yn hytrach na Dyfed sy'n dioddef y goblygiadau i ddechrau tan ei bod hi'n prosesu'r hyn a ddigwyddodd iddi ac yn herio ymddygiad Dyfed.⁶²

Mae cydsynio rhywiol yn cael ei archwilio yn *Sgen i'm Syniad* hefyd wrth i Gwenllian Ellis gofio dihuo gyda dyn yn cael rhyw gyda hi wrth iddi gysgu. Nid oedd gan Gwenllian Ellis unrhyw gof o'r noson flaenorol.⁶³ Mae'n amlwg iddi fod yn rhy feddw i gydsynio i gael rhyw. Mae *Twll Bach yn y Niwl* a *Sgen i'm Syniad*, yn ogystal â *Woof*, ymhlith yr ychydig destunau yn y Gymraeg sy'n codi cwestiynau'n ymwneud â chydsynio.⁶⁴

Rhywioldeb

Ynghyd ag archwilio natur amwys cydsynio rhywiol, mae *Cwlwm* a *Sgen i'm Syniad* yn benodol yn archwilio rhywioldeb prif gymeriadau'r testunau a'r modd y ffurfiwyd eu hagweddau deuaidd at rywioldeb, sy'n agweddau sy'n cael eu herio yn y testunau. Yn *Sgen i'm Syniad*, mae Gwenllian Ellis yn cofio'i chusan gyntaf gyda menyw a'r teimladau o euogrwydd a chywilydd a ddaeth yn ei sgil, teimladau a giliodd ar ôl medru trafod y profiad â chriw o ffrindiau benywaidd cefnogol.⁶⁵ Mae Lydia yn teimlo'r un gybolfa o gywilydd a dryswch ar ôl ei chusan gyntaf gyda menyw yn *Cwlwm*. Unwaith eto yn *Cwlwm*, mae Ffion Enlli yn ceisio archwilio tarddiad y cwlwm hwnnw yn un o'r darnau myfyrgar a geir ar ddiwedd y penodaud wrth i Lydia gofio profiad ffurfiannol o ran ei hagwedd tuag at rywioldeb:

'Gryduras. O peth cas i'r teulu, de.'

'Dwn i'm be 'swni'n neud cofia!'

Roedd ei mam yn ddistaw.

*'Ia, na finna,' meddai ar ôl 'chydig eiliadau. 'Gymri di banad, Llin?'*⁶⁶

⁶¹ Maddocks, *Twll Bach yn y Niwl*, t. 85.

⁶² Ibid., tt. 154–7, t. 165, tt. 241–4.

⁶³ Ellis, *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens*, tt. 96–8.

⁶⁴ Rhys, Elgan (2024), *Woof* (Waunfawr, Caernarfon: Cyhoeddiadau'r Stamp).

⁶⁵ Ellis, *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens*, tt. 175–6.

⁶⁶ Enlli, *Cwlwm*, t. 16.

Mae bod yn hoyw yn cael ei weld fel rhywbeth a fyddai'n codi cywilydd ar y teulu. Wrth i gefnder Lydia ddatgelu ei fod yn hoyw rai blynyddoedd yn ddiweddarach, mae ei mam yn gwneud ei gorau i gael gwared ar unrhyw densiynau yr oedd o bosibl yn eu teimlo yn y gorffennol a dangos ei bod yn iawn gyda'r peth, ond nid yw hyn yn dod yn hawdd iddi:

'Wel, dio'n newid dim i ni, de,' meddai ei mam fel tasa hi'n falch ohoni'i hun.

'Wrth gwrs bod o ddim, pam fysa fo?'

*'O ia, yn union.' Er bod ei mam yn trio ei gorau i baentio darlun laid-back ohoni ei hun, roedd Lydia'n gwybod, o ddifri, bod 'na rhywbeth bach yn pigo ar ei chydwybod. Rhywbeth bach, bach yn gwneud iddi wingo yn ei chadair. Mi oedd hi hefyd yn gwybod tasa hi'n dod â merch adra fory, y basa ei rhieni wedi siomi. Efallai na fysan nhw'n ei ddangos o, ond mi fasan nhw'n ei deimlo fo.'*⁶⁷

O ystyried agweddau ei mam at hoywder, efallai nad yw'n syndod bod Lydia wedi teimlo cywilydd ac ofn am ei hunaniaeth rywiol ar ôl ei chusan lesbiaidd gyntaf neu ar ôl iddi ddatblygu teimladau rhywiol am gymeriad benywaidd arall yn y nofel.⁶⁸ Mae Lydia'n disgrifio'i chusan gyntaf gyda merch i'w chyd-weithwyr yn Llundain, sef Julia sy'n ddeurywiol ac Adrian sy'n hoyw.⁶⁹ Mae Llundain yn cael ei weld fel man lle y gall Lydia archwilio sbectwm ei rhywioldeb yn hytrach na bod yn gaeth i'r ffordd ddu a gwyn yr oedd hi'n gweld rhywioldeb wrth dyfu i fyny. Nid yw rhywioldeb yn cael ei drafod mewn ffordd mor amlwg yn *Twll Bach yn y Niwl*. Mae Manon, ffrind Lowri, sy'n rhannu tŷ gyda hi yn hoyw, ond caiff ei rhywioldeb ei normaleiddio ac nid yw'n cael ei weld fel peth trawmatig fel a geir mewn sawl enghraifft o lenyddiaeth Gymraeg.⁷⁰

Mae *Sgen i'm Syniad, Cwlwm a Twll Bach yn y Niwl* yn archwilio'r gofodau hynny rhwng cysyniadau deuaidd yn ymwneud â rhyw, rhywedd a rhywioldeb, sy'n adlewyrchu natur niwlog profiad yr ON y mae'r awduron dan sylw yn ei chyfleu.

Iaith a hunaniaeth genedlaethol

Mae archwilio iaith a chenedlaetholdeb ymhlith y nodweddion sy'n gosod llenyddiaeth ON ar wahân. Mae Elia Michelle Lafuente yn dangos sut y mae aflonyddwch gwleidyddol a thensiynau o ran cenedlaetholdeb yn cael eu defnyddio mewn llenyddiaeth i bobl ifanc

⁶⁷ Ibid., t. 224.

⁶⁸ Ibid., tt. 159–60.

⁶⁹ Ibid., tt. 165–67.

⁷⁰ Gweler James, Dafydd (2010), *Llwyth* (Caerdydd: Sherman Cymru). Esboniodd Llio Maddock fod hyn yn benderfyniad bwriadol yn lansiad ar-lein *Twll Bach yn y Niwl* (2020) (Tal-y-bont: Y Lolfa); 'Lansiad *Twll Bach yn y Niwl* gan Llio Elain Maddocks', <https://youtu.be/Hz_k8HMC1Nc?si=y6RkmlxiQN3JmJUS> [Cyrchwyd: 11 Awst 2024].

yn eu harddegau fel trosiad ar gyfer brwydr fewnol prif gymeriadau'r nofelau hynny.⁷¹ Byddai modd dadlau bod yr un peth yn wir am *Cwlwm* a *Sgen i'm Syniad* yn enwedig. Mae'r tensiynau ieithyddol a thensiynau'n ymwneud â hunaniaethau cenedlaetholgar yn ychwanegu at un o brif nodweddion llenyddol ON yn ôl Deborah Halverson, sef 'heightened sense of change and instability'.⁷²

Er nad yw cyfnodau o alltudiaeth yn anghyffredin i Gymry ifanc, prin yw'r darnau llenyddol sy'n ymateb i'r cyfnodau byrhoedlog hynny.⁷³ Mae teitl *Cwlwm* yn cyfeirio at ystod o glymau a thensiynau amrywiol y mae Lydia yn eu teimlo mewn perthynas â'i hunaniaethau cenedlaethol, ieithyddol a rhywiol. Nid datod y clymau hynny a wna *Cwlwm*; yn hytrach, mae'n eu hamlygu ac yn eu harchwilio, yn ogystal ag archwilio'r modd y mae'r tensiynau hynny'n codi. Hefyd, dengys sut y mae'r tensiynau hynny'n dod at ei gilydd i greu cymeriad amlweddol Lydia a'i hunaniaethau amrywiol.

Hunaniaethau cenedlaethol

Mae cwestiynau'n ymwneud â pherthyn a hunaniaethau cenedlaethol wrth wraidd *Cwlwm*, fel mae Lydia yn ei esbonio ar ddêt; 'Sometimes I feel like I'm split down the middle - almost as if I have two identities.'⁷⁴ Daw'r tensiwn hwn i'r amlwg yn nhudalennau agoriadol y nofel gyda sgwrs letchwith Lydia â Rob, un o'i rheolwyr, yng nghegin y swyddfa. Er mwyn llenwi gwacter tawelwch wrth wneud coffi, mae Rob yn gofyn i Lydia ar beth oedd hi'n gwranddo wrth feicio i'r gwaith y bore hwnnw. Mae Lydia'n esbonio mai cerdd oedd yn ei phen y bore hwnnw, ac mae'n difaru datgelu hynny'n syth gan fod hynny'n gwahodd llif o gwestiynau pellach gan Rob. Mae Rob yn enwi nifer o feirdd Saesneg amlwg ac yn gofyn ai un o'i cerddi nhw oedd yn atseinio yn ei phen y bore hwnnw. Mae Lydia'n esbonio mai cerdd gan Gymro o fardd, sef 'Etifeddiaeth' gan Gerallt Lloyd Owen, oedd yn ei meddwl. Mae datgelu hyn i Rob yn dipyn o syndod iddo, ac er mor ymddangosiadol gosmopolitaidd ac eangfrydig yw cymeriad Rob mewn sawl ffordd, nid oedd yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg. Mae Rob yn gofyn iddi esbonio llinellau agoriadol y gerdd, ac mae Lydia yn gwneud hynny mewn modd trwsogl. Mae'r sgwrs gyda Rob am y gerdd yn tanio atgof wrth iddi gofio'r tro cyntaf iddi glywed y gerdd yn ei dosbarth Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. Corddodd y gerdd honno deimladau cenedlaetholgar yn Lydia, teimladau a ffurfiodd gwllwm yn ei stumog:

*Teimlodd rywbeth annifyr yn ei 'stumog. Edrychodd o gwmpas y dosbarth yn chwilio am rywun oedd yn teimlo 'run fath â hi. Daliodd ei lygaid, cyn iddo edrych yn ôl i lawr ar ei lyfr yn sydyn.*⁷⁵

⁷¹ Lafuente, Elia Michelle (2012), 'Nationhood, Struggle and Identity', yn *Contemporary Adolescent Literature and Culture: The Emergent Adult*, 33–45.

⁷² Halverson, *Writing New Adult Fiction*, t. 15.

⁷³ Brooks, Simon (2023), 'Adolygiad: Cwlwm', *Barn*, 721, Chwefror, 31.

⁷⁴ Enlli, *Cwlwm*, t. 67.

⁷⁵ *Ibid.*, t. 9.

Mae'r cwlwm hwnnw yn ei stumog a'r clymau amrywiol y mae hi yn eu teimlo mewn perthynas â Chymru a Llundain ymhlith y tensiynau niferus yn y nofel. Wrth gofio'r atgof ffurfiannol hwnnw, mae Lydia hefyd yn cyfeirio at gwlwm arall a ffurfiwyd yn y foment honno wrth iddi edrych o gwmpas y dosbarth i weld a oedd unrhyw un arall yn teimlo'r un deffroad â hi. Daeth yn amlwg bod o leiaf un person arall yn ei deimlo, sef Deio, a ddaeth yn ffrind agos i Lydia. Yn wahanol i Lydia, mae Deio wedi aros yn ei gymuned mewn ymgais ymwybodol i gyfrannu at ddyfodol yr iaith, gan ychwanegu haenen arall o densiwn at y nofel.⁷⁶ Fel nifer o'r cwestiynau cymhleth yn ymwneud â hunaniaeth yn *Cwlwm*, nid yw Ffion Enlli yn cynnig atebion; yn hytrach, mae hi'n amlygu'r clymu a'r tensiynau ac yn gadael y gweddill i'r darlennydd i'w benderfynu.

Amlyga *Cwlwm* fannau dall diwylliannol cymunedau Cymru a chymunedau Llundain fel ei gilydd, megis anwybodaeth nifer o bobl yn Llundain ynghylch iaith a diwylliant Cymru ac agweddau cul rhai o drigolion bro mebyd Lydia o safbwynt rôl menywod a rhywioldeb. At hynny, cyflwyna Ffion Enlli wrthddadleuon i safbwyntiau nifer o gymeriadau'r nofel. Un enghraifft nodedig o hyn yn y nofel yw pan mae Lydia'n dathlu'n uchel mewn tafarn yn Clapton yn Llundain wrth i Iwerddon sgorio cais yn erbyn Lloegr mewn gêm rygbi ryngwladol. Wrth i fenyw leol yn y dafarn ofyn i Lydia o ba ran o Iwerddon y mae hi'n dod, mae Lydia yn esbonio mai Cymraes yw hi. Mae'r fenyw leol yn ei herio:

[...] I just don't get people like you. You come down here hoping for a more exciting life. You go on about how much you hate England and love your country, but here you are, at the centre of it all – reaping the benefits of the capital city and gentrifying the fuck out of it while you're here.⁷⁷

Dangosir hefyd sut y mae Lydia yn crefu canfod dolenni cyswllt rhwng ei ffrindiau a'i chyd-weithwyr yn Llundain, megis gyda Julia sy'n dod o Gatalwnia a George sy'n hanu o Iwerddon. Mae Lydia yn aml yn gwthio ei safbwyntiau hi ar hunaniaeth genedlaethol ar Julia a George. Fodd bynnag, mae Julia a George ill dau yn herio daliadau Lydia. Mae George yn teimlo pellter rhyngddo a chenedlaetholdeb Gwyddelig; 'I just have a hard time with Irish nationalism. Like, this nostalgia for a united Ireland that we were never around for. The anti-English and anti-British feeling of it all. I don't know, I just don't get that now. Like, we're passed it, you know?'⁷⁸ Mae teimladau Julia tuag at ei hunaniaeth genedlaethol fel rhywun o Gatalwnia hefyd yn brigo i'r wyneb wrth i Lydia ganfod 'match' ar Tinder sy'n nodi ei fod yn genedlaetholwr o Gatalanwr, match nad yw Julia yn ei gymeradwyo. Wrth i Lydia ofyn pam, mae Julia yn esbonio; 'Oh no, my love, he is like one of those very hardcore Catalan nationalists who probably has I love Catalynua tattooed on his arm,'⁷⁹ tra bod George yn esbonio ei fod gyfystyr ag un o'r bobl y mae ef yn ei ddisgrifio

⁷⁶ Brooks, 'Adolygiad: Cwlwm', *Barn*, 721, 31.

⁷⁷ Enlli, *Cwlwm*, t. 176.

⁷⁸ Ibid., t. 252.

⁷⁹ Ibid., t. 55.

fel un o'r 'English thugs who have It's Coming Home tattooed on their backs or their chest' [...].⁸⁰ Mae'r pytiau hyn yn dangos mor awyddus yw Lydia i ganfod clymau rhyngddi hi a'i ffrindiau, sydd fel hi yn dod o genhedloedd sydd rhwng ieithoedd a rhwng hunaniaethau cenedlaethol. Mae'r cymeriadau hyn yn ddyfeisiau effeithiol i herio Lydia, ac o bosibl, daliadau darllenwyr *Cwlwm* o safbwynt cenedlaetholdeb a hunaniaeth genedlaethol.

Mae geiriau olaf *Cwlwm* yn clymu â phennod agoriadol y nofel wrth i Lydia godi beiro a dechrau ysgrifennu'n greadigol eto, rhywbeth nad oedd hi wedi gallu gwneud ers gadael Cymru. Mae Lydia yn sylweddoli bod yna glymau rhyngddi hi a'r person y mae'n anfon y geiriau atyn nhw, sef Deio o bosibl, er nad yw hynny'n cael ei nodi'n glir. Mae'n sylweddoli bod y cwlwm rhyngddyn nhw, ac o bosibl nifer o glymau eraill, yn rhan greiddiol o'i hunaniaeth ac mai ofer yw ceisio llacio hynny:

*Mae fatha bod 'na gwlm yn dal ni efo'n gilydd does? Wedi'i 'neud o bridd a môr a geiriau a phrofiadau. Mae o'n gwlm sy'n dal ni'n dynn i'r gorffennol, ond sydd hefyd yn ddigon cryf i ymestyn i'r dyfodol. Ella bo 'na rai pobl yn llwyddo i ddatod y cwlwm. Ond i mi, mwya'n byd dwi'n trio llacio, mwya'n byd ti'n tynhau. A dwi'n meddwl mod i'n gwybod rŵan, os byswn i'n datod y cwlwm go iawn, fyswn i jesd yn malu'n siwrwd. Achos ti jesd yn rhan ohona fi dwyt. Lle bynnag ydw i. Ti wastad wedi bod ac mi fyddi di am byth.*⁸¹

Mae *Cwlwm*, fel nifer o enghreifftiau eraill o lenyddiaeth ON yn cynnig y diweddglo hapus am nawr, hwnnw sy'n cael ei weld yn aml mewn llenyddiaeth i bobl ifanc yn eu harddegau.⁸²

Iaith

Dangosodd gyfnod o alltudiaeth Gwenllian Ellis, ond ychydig filltiroedd dros y ffin i fynychu ysgol breifat yn Lloegr, mor anweledig yw Cymru a Chymreictod i Loegr. Dim ond wrth groesi'r ffin y daeth Gwenllian Ellis yn ymwybodol o'i Chymreictod ac mor fregus yw'r Gymraeg, cysyniad a oedd yn teimlo'n bell iddi fel un a fagwyd yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg ym Mhen Llŷn:

Nes i ddim sylwi pa mor Gymraeg o'n i tan i mi symud i fyw yn Lloegr. Wrth gwrs mod i'n gwybod mod i'n Gymraeg ond do'n i ddim yn dallt pa mor Gymraeg o'n i a chymaint oedd o'n diffinio pwy o'n i. Do'n i erioed wedi sylwi cynt pa mor falch o fod yn Gymraes o'n i chwaith a fod y balchder yn fy niffinio i hefyd. Doedd o ddim yn rhywbeth o'n i wedi ei

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ Ibid., t. 275.

⁸² McAlister, 'Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of "New Adult" Fiction', *Australian Literary Studies*, 33 (4), 10.

*ystyried o'r blaen achos doedd dim angen – roeddau ni jest yn byw ein bywydau. Ond rŵan do'n i ddim yn byw yng Nghymru.*⁸³

Y cyfnod hwn a ddeffrodd genedlaetholdeb Gwenllian Ellis. Fel Lydia yn *Cwlwm*, bu'n rhaid i Gwenllian Ellis esbonio'i hun a bodolaeth y Gymraeg a Chymru fel cenedl dro ar ôl tro:

*Mi 'nes i hi'n ymgyrch bersonol i addysgu pawb fasa'n gwranddo am Gymru a'r iaith Gymraeg, yn canu'r anthem, yn dweud Llanfairpwllgwyngyll gogerychgwynndrobwylllllandisiliogogoch wrth bwy bynnag fysa'n gwranddo, bron iawn fel mod i'n ffetisheiddio'r iaith. Yn gor-Gymreigio fy hun fel taswn i'n trio profi pwynt a gwneud yn iawn am rywbeth.*⁸⁴

Wrth adael Cymru, esboniodd Gwenllian Ellis bod hyn wedi arwain at deimlad o golli cysylltiad â'i Chymreictod,⁸⁵ cysylltiad a ailsefydlwyd yn ddiweddarach. Fel cymeriad Lydia Ifan yn *Cwlwm*, mae Gwenllian Ellis yn symud i Lundain i ganfod ffyrdd o greu dolenni cyswllt â Chymru trwy gymdeithasu â'r gymuned Gymraeg fywiog yn Llundain.⁸⁶

Mae tensiynau'n ymwneud â hunaniaethau cenedlaethol ac ieithyddol yn llai amlwg yn *Twll Bach yn y Niwl*, o bosibl gan fod y nofel wedi'i gosod mewn cymuned ddychmygol yng ngogledd Cymru. Ond mae *Twll Bach yn y Niwl* yn dangos y diffyg sensitifrwydd i'r iaith sy'n cael ei arddangos gan rai mewnfydwyr o Loegr sy'n symud i rai o gadarnleoedd y Gymraeg.⁸⁷ Mae archwilio hunaniaethau cenedlaethol yn fwy amlwg yn *Cwlwm* a *Sgen i'm Syniad* yn sgil cyfnodau o alltudiaeth prif gymeriadau'r darnau hynny, cyfnodau sy'n deffro, herio ac yn ehangu sut maen nhw'n gweld eu hunain, eu hunaniaethau a'r modd y maen nhw'n gweld Cymru a'r Gymraeg.

Iaith a ffurf

Mae ymdriniaeth y testunau dan sylw â iaith a ffurf yr un mor fentrus â'u hymdriniaeth â themâu tabŵ. Mae'r tri thestun wedi'u hysgrifennu yn nhafodiaith y gogledd, modd arall o atgyfnerthu'r natur 'for us, by us' a ddisgrifiwyd gan Julie Naughton gan ei fod yn cynnig elfen fwy agos atoch.⁸⁸ Mae'r elfen agos atoch ynvryfach eto fyth yn *Sgen i'm Syniad* gan fod ffurf debyg i ddyddiadur arno, sy'n creu'r ymdeimlad eich bod chi'n darllen rhywbeth efallai na ddylech chi fod yn ei ddarllen, yn debyg i lyfr Dolly Alderton *Everything I Know About Love*, cyfrol y mae Gwenllian Ellis yn ei nodi a fu'n ddylanwad mawr arni wrth fynd ati i ysgrifennu ei chyfrol.⁸⁹ Mae bob pennod yn *Sgen i'm Syniad* yn dechrau gyda

⁸³ Ellis, *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens*, tt. 61–2.

⁸⁴ Ibid., t. 62.

⁸⁵ Ibid., t. 140.

⁸⁶ Ibid., tt. 207–13.

⁸⁷ Maddocks, *Twll Bach yn y Niwl*, t. 41.

⁸⁸ Naughton, 'New Adult Matures', *Publishers Weekly*, 261 (28), 25.

⁸⁹ Mae Gwenllian Ellis yn esbonio mewn cyfweiliad â Marged Tudur na fyddai *Sgen i'm Syniad* yn bodoli heb ysbrydoliaeth *Everything I Know About Love* gan Dolly Alderton. <<https://www.youtube.com/watch?v=fiJSIk3C74>> [Cyrchwyd: 1 Awst 2024].

rysáit, delwedd neu restr o bethau a oedd yn bwysig iddi ar y pwynt hwnnw yn ei bywyd, a thrwy wneud hynny, mae'n helpu i osod y llwyfan ar gyfer gweddill y bennod. Caiff deialog Saesneg ei ddefnyddio'n achlysurol i gyfleu sgyrsiau Gwenllian Ellis gyda chymeriadau nad ydynt yn siarad Cymraeg, sydd hefyd yn fodd o amlygu'r hollt rhwng bywyd Gwenllian Ellis yng ngogledd-orllewin Cymru a'i bywyd yn Lloegr.

Hybridedd: iaith a ffurf

Er bod Gwenllian Ellis yn defnyddio Saesneg yn ei sgyrsiau gyda ffrindiau di-Gymraeg, caiff y Saesneg ei defnyddio'n helaethach o dipyn lot yn *Cwlwm*. Mae defnydd helaeth o Saesneg mewn rhyddiaith Gymraeg yn hollti barn. Un enghraifft lled ddiweddar o hyn yw sylwadau un o feirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen ar ddefnydd Meinir Pierce Jones o bytiau o Saesneg yn *Capten*. Disgrifiwyd y defnydd ohono fel defnydd diangen yn ôl y beirniad hwnnw. Yn ôl Emyr Llywelyn, byddai rhoi Gwobr Goffa Daniel Owen i *Capten* yn gamgymeriad dybryd a fyddai'n arwain at ddirywiad y nofel Gymraeg:

Bydd gwobrwyo'r nofel hon, fel rhodd Roegaidd farwol o geffyl pren Caerdroia i fyd y nofel Gymraeg, yn arwain at ddiwedd nofelau yng ngwisg hardd ein heniath ac yn arwain at gynhyrchu clytweithiau hyll dwyieithog a diwedd y nofel Gymraeg.⁹⁰

Defnyddir Saesneg yn helaeth yn *Cwlwm* fel ffordd o ychwanegu at y plot a naws y nofel ac fel modd arall o gyfleu'r tensiynau ieithyddol y mae Lydia yn eu teimlo rhwng hunaniaethau ac ieithoedd.

Ynghyd â hybridedd ieithyddol, mae *Cwlwm* hefyd yn neidio rhwng ffurfiau ysgrifennu, megis e-byst, erthyglau papur newydd, cerddi a negeseuon WhatsApp, sydd oll yn cael eu defnyddio fel gofodau hybrid rhwng bywyd Lydia yng Nghymru a'i bywyd yn Llundain. Mae'r gofodau hybrid hyn yn aml yn dwysáu neu'n amlygu tensiynau a gyflwynwyd yn y nofel. Mae defnydd Ffion Enlli o ddarnau mwy myfyrgar ar ddiwedd penodau yn fodd arall o ddangos defnydd Ffion Enlli o ffurfiau amrywiol yn y nofel. Mae'r pytiau myfyrgar hyn yn gwahodd darllenwyr i greu cwlwm rhyngddynt a chynnwys y bennod, a thrwy hynny maent yn creu gofod arall o fod rhwng pethau.

Mae pytiau o *Twll Bach yn y Niwl* yn ymdebygu i arddull *Fleabag* gan Phoebe Waller-Bridge, sy'n neidio rhwng pytiau o ddeialog a phytiau o draethu yn y person cyntaf am y cyfnod sy'n rhagflaenu'r cyfnod y seiliwyd y nofel ynddi. Mae hyn yn fodd arall o greu agosatrwydd rhwng yr awdur a'r darlennydd. Ystyrier y darn isod, er enghraifft:

Ro'n i'n ista tu allan i'r clwb rygbi efo hogyn nad oedd yn gariad i mi, yn meddwl be fasa'r ffordd orau i'w gael i 'ngwely.

⁹⁰ Llewelyn, Emyr (2022), 'Gwobr Goffa Daniel Owen', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion*, Lewis, W. Gwyn (gol.) (Llandysul: Gomer), t. 138.

‘Ti isio sigarét?’ medda fi wrtho.

Do’n i ddim yn smocio go iawn, ond ro’n i wedi ffeindio’r paced hanner gwag ar lawr y clwb yn gynharach yn y noson, ac ro’n i’n meddwl ei bod hi’n haws sediwio rhywun efo sigarét yn fy llaw.⁹¹

Tra bod Gwenllian Ellis yn aml yn defnyddio ryseitiai neu restrau ar ddechrau penodau, mae Maddocks yn defnyddio enw anifail a disgrifiad bras ohono er mwyn fframio penodau a thrwy wneud hynny, mae’n atgoffa darllenwyr bod pobl yn ymddwyn mewn ffordd anifeilaidd iawn.⁹² Mae ffresni arddull y tri awdur yn gyfrwng arall i leisio’u profiadau fel ON yn y Gymraeg.

Clo

Mae’r tri thestun a drafodwyd yn yr erthygl hon yn cyflwyno nid yn unig lleisiau newydd i’r nofel Gymraeg, ond maent hefyd yn cyflwyno categori llenyddol newydd, ymdriniaeth feiddgar â themâu a defnydd dyfeisgar o iaith a ffurf er mwyn adrodd eu fersiwn nhw o ddod i oed fel menywod yn y Gymru Gymraeg.

Mae’n wir bod llenyddiaeth ON yn Gymraeg yn rhannu nifer o nodweddion tebyg i llenyddiaeth ON yn Saesneg, megis y ffaith mai ON yw awduron testunau i ON a’u bod yn archwilio’r profiad o fod rhwng llencyndod a bod yn oedolion; fodd bynnag, mae llenyddiaeth ON yn Gymraeg yn ychwanegu haenen arall o fod rhwng bydoedd yn eu hymdriniaeth â themâu, megis iaith a hunaniaethau cenedlaethol.

Mae’r tri awdur dan sylw yn sicrhau bod ymatebion creadigol i’r profiad o ddod i oed i’w clywed yn Gymraeg yn ystod cyfnod hollbwysig o siapio hunaniaethau ac agweddau ieithyddol. Dangosodd ganlyniadau cyfrifiad 2021 bod y nifer o siaradwyr y Gymraeg yn gostwng yn sylweddol ar ôl bwrw canol eu harddegau.⁹³ Gellid dadlau, felly, bod sicrhau lle i leisio’r garfan oed hon mewn llenyddiaeth Gymraeg yn hanfodol er mwyn cynnig gofod i archwilio a thrafod rhywedd, rhywioldeb, a hunaniaethau ieithyddol a chenedlaethol mewn llenyddiaeth Gymraeg. Gyda hyn, dangosir bod modd trafod popeth yn Gymraeg.

Nawdd

Mae’r ysgrif hon yn rhan o brosiect sydd wedi derbyn nawdd gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (ERC) fel rhan o raglen ymchwil ac arloesi ‘Horizon 2020’ yr Undeb Ewropeaidd (rhif cytundeb grant 802695).



⁹¹ Maddocks, *Twll Bach yn y Niwl*, t. 5.

⁹² Ibid., t. 116

⁹³ Llywodraeth Cymru (2020), *Y Gymraeg yng Nghymru* (Cyfrifiad 2021), <<https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>> [Cyrchwyd: 6 Awst 2024].

Llyfryddiaeth

- Alderton, Dolly (2019), *Everything I Know About Love* (London: Penguin).
- Arnett, J. J. (2000), 'Emerging Adulthood: A theory of development from the late teens through the twenties', *The American Psychologist*, 55 (5), 469–80.
- Baker, K. J. M. (2012), "'New Adult' Fiction Is Now an Official Literary Genre Because Marketers Want Us to Buy Things', *Jezebel*, <<https://www.jezebel.com/new-adult-fiction-is-now-an-official-literary-genre-because-marketers-want-us-to-buy-things>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024].
- Brooks, Simon (2023), 'Adolygiad: Cwlwm', *Barn*, 721 (Chwefror), 31.
- Cadden, Mike, Coats, Karen, a Trites, Rebecca Seelinger (goln) (2020), 'Introduction', *Teaching Young Adult Literature* (Modern Language Association of America).
- Chappell, Briony (2012), *Would you read novels aimed at 'new adults'?* <<https://www.theguardian.com/books/2012/sep/10/new-adult-fiction>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024].
- Dołowy-Rybińska, Nicole (2020), *"No One Will Do This For Us": The Linguistic and Cultural Practices of Young Activists Representing European Linguistic Minorities* (Oxford: Peter Lang).
- Ellis, Gwenllian (2022), *Sgen i'm Syniad: Snogs, Secs, Sens* (Talybont: Y Lolfa).
- Enlli, Ffion (2022), *Cwlwm* (Talybont: Y Lolfa).
- Gramich, Katie (2007), *Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Halverson, Deborah (2014), *Writing New Adult Fiction* (Cincinnati, USA: Writer's Digest Books).
- James, Dafydd (2010), *Llwyth* (Caerdydd: Sherman Cymru).
- Kane, Sharon (2023), *Teaching and Reading New Adult Literature in High School and College* (Abingdon: Routledge).
- Kaufman, Leslie (2012), *Beyond Wizards and Vampires, to Sex* <<https://www.nytimes.com/2012/12/22/books/young-adult-authors-add-steamiess-to-their-ales.html>> [Cyrchwyd: 29 Gorffennaf 2024].
- Lewis, Llŷr Gwyn (2014), *Storm ar Wyneb yr Haul* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr)
- Lewis, Llŷr Gwyn (2020), *Rhwng Dwy Lein Drên* (Cymru: Hunangyhoeddedig)
- Lloyd-Morgan, Ceridwen (1994), 'Sensro'r Ferch', *Taliesin*, 84, 24–9.
- Lui, Rebecca (2019), *The Making of a Millennial Woman* <<https://www.anothergaze.com/making-millennial-woman-feminist-capitalist-fleabag-girls-sally-rooney-lena-dunham-unlikeable-female-character-relatable/>> [Cyrchwyd: 7 Awst 2024].
- Marks, Rhiannon (2017), 'Syrffio'r drydedd don?: heriau cyfoes astudiaethau rhywedd', *Y Traethodydd*, CLXXII (720), 47–62.
- O'Rourke, Bernadette, *Attitudes towards minority languages: an investigation of young people's attitudes towards Irish and Galician*, traethawd PhD, Prifysgol Dinas Dilyn, Dilyn, 2005.
- Lafuente, Elia Michelle (2012), 'Nationhood, Struggle and Identity', yn *Contemporary*

- Adolescent Literature and Culture: The Emergent Adult*, Nikolajeva, Maria, a Hilton, Mary (goln) (Abingdon: Routledge), tt. 33–45.
- Llywodraeth Cymru (2020), *Y Gymraeg yng Nghymru* (Cyfrifiad 2021), <<https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>> [Cyrchwyd: 6 Awst 2024].
- Llywelyn, Mared (2023), *Croendena* (Waunfawr, Caernarfon: Cyhoeddiadau'r Stamp).
- Maddocks, Llio Elain (2021), *Twll Bach yn y Niwl*, 2^{il} argraffiad (Talybont: Y Lolfa).
- Maddocks, Llio Elain (2021), *Stuff Ma Hogia 'Di Ddeud Wrtha Fi* (Waunfawr, Caernarfon: Cyhoeddiadau'r Stamp).
- McAlister, Jodi (2018), 'Defining and Redefining Popular Genres: The Evolution of 'New Adult' Fiction', *Australian Literary Studies*, 33 (4), 1–19. <<https://doi.org/10.20314/als.0fd566d109>>.
- McAlister, Jodi (2021), *New Adult Fiction* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Naughton, Julie (2014), 'New Adult Matures', *Publishers Weekly*, 261 (28), 20–6.
- Nelson, Kristin (2013), 'New Adult – Perhaps the Latest Word for Chick Lit', *Nelson Agency*, <<https://nelsonagency.com/2013/04/new-adult-perhaps-the-latest-word-for-chick-lit/#:~:text=New%20adult%20is%20the%20, and%20started%20writing%20for%20them>> [Cyrchwyd: 8 Awst 2024].
- Nikolajeva, Maria, a Hilton, Mary (2012), 'Introduction: Time of Turmoil', yn *Contemporary Adolescent Literature and Culture: The Emergent Adult*, Nikolajeva, Maria, a Hilton, Mary (goln) (Abingdon: Routledge), tt. 1–16.
- Non, Lleucu (2020), 'Twll Bach yn y Niwl', <<https://www.sonamlyfra.cymru/post/twll-bach-yn-y-niwl-llio-elain-maddocks>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2024].
- Pattee, Amy (2017), 'Between Youth and Adulthood: Young Adult and New Adult Literature', *Children's Literature Association Quarterly*, 42 (2), 218–30.
- Rees, Mair (2014), *Y Llawes Goch a'r Faneg Wen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Rhys, Elgan (2024), *Woof* (Waunfawr, Caernarfon: Cyhoeddiadau'r Stamp).
- Rooney, Sally (2018), *Normal People* (London: Faber and Faber).
- Ros, Manon Steffan, Kidd, Ioan, a Llewelyn, Emyr (2022), 'Gwobr Goffa Daniel Owen', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022*, Lewis, Gwyn (gol.) (Llandysul: Gomer), tt. 125–40.
- Smith, Josefine, 'New Adult Fiction and a New Feminine Experience', traethawd MA, Pennsylvania State University at Harrisburg, Harrisburg, 2017.
- Sudjic, Olivia (2019), *Darkly funny, desperate and full of rage: what makes a millennial novel?*, <<https://www.theguardian.com/books/2019/aug/17/what-makes-a-millennial-novel-olivia-sudjic>> [Cyrchwyd: 15 Awst 2024].
- Trites, Roberta Seelinger, 'Disturbing the Universe: Power and Repression in Adolescent Literature', traethawd PhD, University of Iowa, Iowa, 2000.
- Tudur, Non (2022), 'Siarad Sens am Ryw', *Golwg*, 35 (3), Medi 15, 23–6.
- Waller-Bridge, Phoebe (2019), *Fleabag: The Scriptures* (London: Penguin).
- Williams, Gerwyn (1999), 'Rhagymadrodd', *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Y Lolfa (2020), 'Lansiad Twll Bach yn y Niwl gan Llio Elain Maddocks', <[Lansiad | Twll Bach yn y Niwl gan Llio Elain Maddocks - YouTube](#)> [Cyrchwyd: 11 Awst 2024].

Y Lolfa (2022), 'Sgwrs efo Gwenllian Ellis', <<https://www.youtube.com/watch?v=fiJSlkm3C74>> [Cyrchwyd: 1 Mawrth 2024].